

Dod i'nabod aelod o GLWB GWAWR

RUTH MORGAN

Bu Angharad Gwilliam, swyddog newydd Clybiau Gwawr yn siarad â Ruth Morgan, aelod o Glwb y Gwendraeth, a fu'n Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr y de am ddeng mlynedd, tan ddechrau 2017. Ers mis Medi mae hi a'i ffrind Pat Rowlands, sydd hefyd yn aelod o Glwb y Gwendraeth, yn Gyd-Swyddogion Rhanbarth Caerfyrddin.

Beth sy'n digwydd yn eich bywyd nawr?
Dwi erioed wedi bod mor brysur! Rwyf i a' ngŵr Huw wedi cael ein bendithio gyda dwy wyres fach newydd dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gwneud cyfanswm o dair merch a thair wyres. Plant fy merch hynaf, Rhiannon, a'i gŵr Huw, yw Melangell Elfair sy'n bedair a Morfudd Awel sy'n ddeg mis. Babi bach fy merch ganol,



Y merched, chwith i'r dde: Mari, Rhiannon a Bethan

Bethan a'i gŵr Ynyr, yw Tanwen Antur, sy'n chwe mis. Maen nhw i gyd yng Nghaerdydd, sy'n golygu llawer o fynd a dod ar hyd yr M4! Rhyngddyn nhw a helpu gyda gweddill y teulu – mae fy mam yn 97 ac yn byw gerllaw – mae digon o waith gofalu achos yn anffodus mae salwch wedi bod yn y teulu hefyd... Fel 'na mae bywyd ar adegau nagyfe? Mae digon o bethau sy'n codi'r galon hefyd yn cynnwys teithio, priodas a babi newydd merch fy nith yn y misoedd nesaf.

Sut ydych yn ymlacio?
Jôc dda!

Na, mae'n bwysig ceisio gwneud amser i ymlacio... Dwi'n mwynhau ioga, cwrdd â ffrindiau, amser tawel adref (!), cerdded, darllen, Hanes a Hanes Teulu. Bûm yn ffodus i weithio ar Brosiect Hanes Llafar MyW gyda Catrin Stevens a Sharon Owen i ddathlu'r Mileniwm; roedd yn fraint recordio cannoedd o fenywod yn sôn am eu bywydau, a helpu i hyfforddi aelodau'r Mudiad i recordio cyd-aelodau. Braff clywed yn ddiweddar y bwriad o gyhoeddi llyfr a fydd yn cynnwys peth o'r deunydd gwerthfawr yma.

Beth am wyliau?

Gwireddais freuddwyd yn ystod Hydref 2017 wrth fynd gyda dwy o'm ffrindiau coleg i Beriw. Profiad arbennig. Rwy'n benderfynol o wneud mwy o *long hauls* tra gallaf; rydym yn gobeithio mynd i Singapôr i weld fy nith ddiwedd y flwyddyn ac wedi bod i'r UDA dair gwaith. Rwyf hefyd yn mwynhau ymweld â dinasoedd yn Ewrop.

Mae *motor home* gennym, felly rydym yn mwynhau teithio o gwmpas Ffrainc (a Sbaen weithiau) am rai wythnosau bob haf, yn ogystal â chael nosweithiau i ffwrdd yng

Nghymru a gweddill Prydain. Brêc arall rheolaidd yw ymweld â Mari, ein merch ifancaf, a'i phartner Gruff, sydd yn byw yng Nghaernarfon. Hefyd, ymweld â rhieni Huw sy'n byw ar lan yr hen Gei yn Abergwaun – lle arall hyfryd rydym yn mwynhau ymweld ag e.



Ruth (ar y chwith) a Pat yn Fenis

Sut mae'n mynd fel Swyddog Rhanbarth?
Iawn – gyda llawer o gymorth wrth aelodau a chyn-swyddogion! Cefais alwad ffôn wrth fy ffrind Iona Morgan – oedd yn Ysgrifennydd Rhanbarth ar y pryd – yn esbonio y bu'n amhosib cael hyd i swyddogion rhanbarth newydd. (Roedd Ann Phillips a Gwyneth Alban o Gangen Pencader eisoes wedi cytuno bod yn Drysoryddion). Y penderfyniad felly oedd llunio rhestr o'r canghennau / clybiau gyda'r nifer fwyaf o aelodau, ac roedd ein clwb ni, Y Gwendraeth yn un o'r rhain. Dyma gael sgwrs gyda fy ffrind Pat a chytuno y byddai'r ddwy ohonom yn rhannu swydd Llywydd ac Ysgrifennydd Rhanbarth. Credaf bod rhannu'r swyddi yma yn rhywbeth newydd; mae wedi gweithio'n dda mor belled wrth i ni'n dwy rannu'r baich a dod i ddeall yr holl bethau mae'r mudiad yn ei wneud a chymryd rhan ynddynt.

Beth amdani, felly, chi aelodau'r clybiau? Rhwch dro ar fynychu ambell Bwyllgor Rhanbarth. Cyfle i ddweud eich dweud a dylanwadu ar ein mudiad pwysig ni!